OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 294 (Cy. 29)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A5 a'r A470 (Pont Waterloo, ger Betws-y-coed, Conwy) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2015

*Gwnaed* *26 Ionawr 2015*

*Yn dod i rym* *2 Chwefror 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) a Chefnffordd Maentwrog – Man i'r Dwyrain o Gonwy (yr A470) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar y darnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984[(1)] a phob pŵer galluogi arall[(2)], yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.**Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Chwefror 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A5 a'r A470 (Pont Waterloo, ger Betws-y-coed, Conwy) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2015.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 07:00 o'r gloch ar 2 Chwefror 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads*") yw'r darnau o gefnffyrdd yr A5 a'r A470 wrth Bont Waterloo, ger Betws-y-coed ym Mwrdeistref Sirol Conwy, a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Cyfyngiadau a Gwaharddiad

**3.**Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen, ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

### Cymhwyso

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Ionawr 2015

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

i) Y darn hwnnw o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A5 tua'r gogledd am 150 metr.

ii) Y darn hwnnw o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A470 tua'r de am 150 metr.

iii) Y darn hwnnw o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A470 tua'r gorllewin am 150 metr.